**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Carwyn Jones

21 Mawrth 2024

Dyfodol Dur yng Nghymru – Craffu gan y Pwyllgor

Annwyl Carwyn,

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â gwaith parhaus y Pwyllgor ar ddyfodol dur yng Nghymru. Yn dilyn cyhoeddiad Tata ym mis Ionawr o'u bwriad i gau'r ffwrneisi chwyth ym Mhort Talbot, mae effaith colli swyddi ar y gweithwyr, y gymuned ac economi ehangach Cymru wedi bod yn flaenllaw ym meddyliau'r Aelodau, ac yn uchel ar agenda'r Pwyllgor.

Fel rhan o'n trafodaethau preifat ar y mater rydym wedi edrych yn ôl ar sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru ymdrin â'r argyfwng dur yn 2016, gan gynnwys eich dull personol o ymgysylltu â Tata Steel yng Nghymru ac India. Byddai gennym ddiddordeb mawr mewn clywed eich barn ar y sefyllfa bresennol; yn enwedig os oes gennych unrhyw safbwyntiau personol neu wersi a ddysgwyd o 2016 y teimlwch y byddent yn berthnasol wrth ymdrin â'r argyfwng presennol.

Byddai'r Pwyllgor, a fydd yn cyfarfod nesaf ddydd Mercher 24 Ebrill, yn gwerthfawrogi'n fawr pe baech yn fodlon rhannu eich barn ar hyn yn ysgrifenedig.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg